Dyddiad | Date: 19/01/2021

Annwyl Riant

Rydych yn derbyn y llythyr hwn gan fod gan eich plentyn wersi cerddoriaeth offerynnol neu lleisiol gyda thiwtor Gwasanaeth Cerdd RhCT.

Fel gwasanaeth, gwyddom fod y cyfyngiadau presennol a chau ysgolion yn anodd i blant ac y gallent fod yn cael effaith negyddol ar eu lles. Felly, mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod bellach yn gallu cynnig gwersi ar-lein drwy ddefnyddio Hwb a Microsoft Teams.

Gyda rhieni a phlant yn gweithio gartref, gwyddom fod bywyd cartref yn brysur ar hyn o bryd. Felly sylwer bod y gwersi hyn yn ddewisol, gallwch ddewis cofrestru eich plentyn ai peidio (bydd pob gwers yn ailddechrau fel arfer pan fydd ysgolion yn ailagor).

Sut bydd y gwersi'n cael eu cynnal?
Bydd ein gwersi cerdd yn cael eu cyflwyno yn unol â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru:

- Cyflwynir gwers gydag 1 tiwtor Gwasanaeth Cerdd yn bresennol
- Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn grwpiau bach
- At ddibenion diogelu, isafswm maint y grŵp yw 2 ddisgybl a bydd gwersi yn cael eu recordio
- Unwaith y bydd disgybl wedi cofrestru ar gyfer gwersi, bydd ei athro/athrawes yn sefydlu cyfarfod Teams a bydd gwahoddiad i fynychu yn cael ei anfon i gyfrif e-bost Hwb y disgybl
- Pan fydd rhiant yn cofrestru plentyn ar gyfer gwersi arlein gyda'r Gwasanaeth Cerdd, rydych yn cytuno y byddwch yn sicrhau bod eich blentyn yn glynu wrth y 'Cytundeb Dysgwr' (gweler y wybodaeth ar ddiwedd y llythyr hwn)

Dear Parent

You are receiving this letter as your child has instrumental or vocal music lessons with an RCT Music Service tutor.

As a service, we know that the current lockdown and closure of schools is difficult for children and could be having a negative impact on their wellbeing. So, we are delighted to announce that we are now able to offer remote lessons delivered via Hwb and Microsoft Teams.

With parents and children working from home, we know that home life is hectic at this time. So please note that these lessons are optional, you can choose to enrol your child or not (all lessons will resume as normal when schools reopen).

How will the lessons take place?
Our music lessons will be delivered in line with current Welsh Government guidance:

- Lesson will be delivered with 1 Music Service tutor present
- Pupils will be taught in small groups
- For safeguarding purposes, the minimum group size is 2 pupils and lessons will be recorded
- Once a pupil is enrolled for lessons, their teacher will set up a Teams meeting and an invite to attend will be send to the pupil's Hwb email account
- When a parent enrols their child for remote lessons with RCT Music Service, they are agreeing that they will ensure their child adheres to the 'Learner Agreement' (see information at the end of this letter)

Rydyn ni'n ymrwymo i gadw eich data personol yn ddiogel ac i roi gwybod sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut rydyn ni'n cadw eich data yn breifat, a sut rydyn ni'n defnyddio eich data personol i gynnig gwasanaethau i chi, ewch i www.rctcbc.gov.uk/HysbysiadPreifatrwyddGwasanaeth a'n tudalennau www.rctcbc.gov.uk/diogeludata

The Council is committed to keeping your personal information safe and secure and keeping you informed about how we use your information. To learn about how your privacy is protected and how and why we use your personal information to provide you with services, please visit our service privacy notice www.rctcbc.gov.uk/serviceprivacynotice and the Councils data protection pages: www.rctcbc.gov.uk/dataprotection.

Tŷ Trevithick
Abercynon, Aberpennar | Mountain Ash CF45 4UQ Ffôn/Tel: 01443 744000

Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

- Er mwyn caniatáu hyblygrwydd i diwtoriaid a disgyblion, gall gwersi ddigwydd ar ddiwrnod gwahanol i'r adeg pan fydd eich plentyn fel arfer yn derbyn ei wers gerddorol
- Bydd gwersi'n cael eu cynnal rhwng 9:00am a 3:30pm ond gellir ymestyn y diwrnod addysgu fesul achos

Sut ydw i'n cofrestru ar gyfer gwersi arlein?
Anfonwch neges i gwasanaethcerdd@rctcbc.gov.uk a dywedwch y manylion canlynol wrthym:

- **Enw'r Plentyn**
- **Ysgol y Plentyn**
- **Offeryn**
- **Cyfeiriad e-bost Hwb y Plentyn**

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru ar gyfer gwersi ar-lein yw dydd Sul 24 Ionawr, 6:00pm

Diolch am gefnogi eich plentyn ar ei daith gerddorol ac rwy'n gobeithio y byddwch chi a'ch teulu yn cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Cofion cynnes

- To allow flexibility for tutors and pupils, lessons may take place on a different day to when your child normally receives their music lesson
- Lessons will take place between 9:00am to 3:30pm but the teaching day may be extended on a case by case basis

How do I enroll my child for remote lessons?
Please email us at musicservice@rctcbc.gov.uk and tell us the following details:

- **Child's Name**
- **Child's School**
- **Instrument**
- **Child's Hwb email address**

The enrolment deadline for remote lessons is Sunday 24th January, 6:00pm

Thank you for supporting your child on their musical journey and I do hope you and your family keep safe during this difficult time.

Kind regards

Mark Wells

Mark Wells
Gwasanaeth Cerdd RhCT | RCT Music Service
ar ran|for Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

Gwasanaeth Cerdd RhCT
Dysgu o Bell - Cytundeb Dysgwr (Disgybl)

Pan fyddwch yn cofrestru eich plentyn i dderbyn gwersi cerddoriaeth byw (fideo-gynadledda) gydag aelod o staff o Wasanaeth Cerdd Rhondda Cynon Taf, rydych chi/eich plentyn yn cytuno i'r canlynol:

Mae dysgwyr (disgyblion) yn cytuno i:

- fod yn brydlon ar gyfer pob gwers/sesiwn fideo-gynadledda
- gael mynediad i unrhyw ffeiliau perthnasol ar gyfer pob gwers/sesiwn ymlaen llaw a chael y deunyddiau wrth law
- sicrhau bod ganddynt yr holl addasyddion pŵer a gliniaduron yn barod cyn i'r wers/sesiwn ddechrau a'u bod wedi mewngofnodi i'r wers/sesiwn
- dangos parch at bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein
- gwisgo'n briodol ar gyfer pob gwers/sesiwn, gan feddwl am barch tuag at eraill
- sicrhau bod y lleoliad y maent yn mewngofnodi ohono yn briodol ac yn newid eu lleoliad 'cefndir' fel y cytunwyd gyda'r ymarferydd
- ceisio cyfrannu at y wers/sesiwn mewn modd cadarnhaol a peidio â bod yn aflonyddgar ar unrhyw adeg
- peidio â rhannu delweddau o'r sesiwn na'r wers

Rhondda Cynon Taf Music Service
Remote Learning - Learner (Pupil) Agreement

When you enroll your child to receive live music (video conferencing) lessons with a member of staff from Rhondda Cynon Taf Music Service, you/your child are agreeing to the following:

Learners (pupils) agree to:

- be punctual for all video-conferencing lessons/sessions
- access any relevant files for each lesson/session in advance and have the materials to hand
- make sure they have all power adaptors and laptops ready before the lesson/session begins and are logged into the lesson/session
- show respect for everyone in the online classroom
- dress appropriately for all lessons/sessions, thinking about respect for others
- ensure the location they log in from is appropriate and change their 'background' setting as agreed with the practitioner
- seek to contribute to the lesson/session in a positive manner and not be disruptive at any time
- not share images of the session or lesson